

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fwyd
Cyfarfod Brecwast 3 Mawrth 2020

Aelodau a oedd yn bresennol

Jenny Rathbone AS, Cadeirydd

Lesley Griffiths AS **Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Llyr Huws Gruffydd AS

Mike Hedges AS

Rhun ap Iorwerth AS

Huw Irranca-Davies AS

David Melding AS

Hefyd yn bresennol

Keith Smyton, **Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru**

Shea Buckland-Jones, WWF Cymru

Lucie Taylor, Cydlynnydd y Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol Cymru,

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru

Joanne Jefford, Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru

Rhys Evans, RSPB

Rhys James, Caffael Cyngor Caerffili

Andrew Collings, Arch Blas a Bwyd Araf Cymru

Harry Thompson, Deryn ar ran Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd

Meddal Prydain

George Watkins - Swyddfa Jenny Rathbone AS, cofodwr

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Adroddiad Blynyddol wedi'i gymeradwyo. Enwebwyd Jenny yn Gadeirydd gan Mike Hedges a Llyr Huws Gruffydd. Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 21 Hydref 2019 i'w rhannu drwy e-bost.

Croesawodd Jenny y Gweinidog fel y person sydd yn y sefyllfa orau i drafod yr heriau sy'n wynebu bwyd yng Nghymru yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynghylch perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol.

Pwysleisiodd **Lesley Griffiths** (LG) ei rôl arweiniol yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau pedairochrog gyda'r DU a llywodraethau datganoledig eraill ar drafodaethau masnach yn y dyfodol. Mae dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru yn hanfodol i'n diwydiant bwyd. Cafwyd dwy rownd o ymgynghoriadau cyhoeddus ar *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*. Bydd cyllid yn parhau i gefnogi amaethyddiaeth.

Ymrwymiad cadarn i gynnal safonau bwyd, dyna mae Cymru'n enwog amdano.

Diffyg eglurder ynghylch canlyniad trafodaethau masnach gyda'r UE ar fwyd. Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer cyrraedd ein nodau llesiant

Poeni bod awdurdodau lleol yn gwerthu ffermydd cymunedol gan ei fod yn ffordd i mewn ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Mike Hedges (MH): Etifeddodd llawer o awdurdodau lleol ffermydd, a drosglwyddwyd iddynt o ganlyniad i ddatgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru. A yw'r ffermydd hynny'n dal i gael eu cadw o dan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru? Os ydynt yn cael eu gwerthu, a yw er mwyn buddsoddi mewn achosion da? Os nad felly, pam mae awdurdodau lleol yn eu gwerthu?

Keith Smyton: Mae rhai wedi cael eu gwerthu, ond nid oes gan LIC ddarlun cyflawn o raddau'r gwerthiannau ffermydd cyngor a ph'un ai a ddaethant i feddiant awdurdodau lleol o ganlyniad i ddatgysylltiad yr eglwys Anglicanaidd yng Nghymru.

HUW IRRANCA-DAVIES (HID): Cyfleoedd posib yn ogystal â heriau i fwyd yng Nghymru. I ba raddau y gallwn nawr symud tuag at rwydweithiau bwyd mwy lleol i gyflenwi ein hysgolion, ysbytai ac awdurdodau lleol?

Mae mwyafrif pysgodfeydd Cymru yn dibynnu ar allforion. Os na cheir cytundeb gyda'r UE, pa rhagddarpariaeth sydd ar gyfer datblygu marchnadoedd lleol? Pa rôl allai tariffau ei chwarae naill ai wrth amddiffyn Cymru rhag bwyd rhad o ansawdd gwael yn cael ei ddympio ar ein marchnad neu wrth rwystro allforion cynnyrch o Gymru?

LG: Yn bendant mae cyfleoedd ym maes caffael. Fel Gweinidog Iechyd, trafododd hi anghysondebau bwydlenni mewn ysbytai. Dywedodd ysbytai mai'r rheswm pam na wnaethant gaffael cig oen o Gymru oedd oherwydd y gost. Roeddent hefyd yn prynu llysiau wedi'u rhewi a thatws rhost wedi'u paratoi ymlaen llaw. Mae cyfleoedd i newid hynny

Mae 90% o'r pysgod sy'n cael eu dal yng Nghymru yn cael eu hallforio, ynghyd â 2/3 o gig eidion. Byddai dim cytundeb a thariffau yn golygu diwedd llawer o fusnesau. Tariffau yn fygythiad posibl i rai sectorau, e.e. mae **90%** o'n pysgod yn cael eu hallforio. Byddai dim cytundeb yn golygu diwedd llawer o'r busnesau hynny. Nid ydym yn bwyta digon o bysgod yng Nghymru i gynnal y farchnad.

David Melding (DM): Nid yw'r raddfa'n iawn oni bai bod pawb yn bwyta cymaint o bysgod cregyn ag ydw i'n ei wneud. Arfordir Cymru yw Bae Chesapeake gogledd-orllewin Ewrop, yn llawn pysgod.

Joanne Jefford (JJ): Cyd-gadeirydd gweithgor Fframwaith Bwydlenni Caffael Cyhoeddus Cymru Gyfan. Angen diweddarau safonau 2009. Pwysau ariannol = anaml y bydd pysgod ar y fwydlen. Mae llawer o gigoedd fel cig oen yn rhy ddrud. Yn arbennig ar gyfer ysbytai. Rydym eisiau'r gorau i'n cleifion ond mae cost yn broblem.

LG: Ar ôl Brexit, mae hynny'n gyfle go iawn.

Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru ym Maes Awyr Caerdydd a gorsafoedd trên. Mae'r Alban yn ei wneud yn llawer gwell na ni.

Rhun ap Iorwerth: Arferai archfarchnadoedd ddianc rhag beirniadaeth drwy gael dewis o gynnyrch o Gymru ar werth er mwyn sioe. Dylem ei droi o gwmpas a chael adran cynnyrch nad yw o Gymru. Trafodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed mewn gwahanol archfarchnadoedd.

JR: Dyw cig oen ond yn ddrud os ydych eisiau'r toriadau poblogaidd. A ellid defnyddio toriadau rhatach mewn caffael cyhoeddus yn hytrach na'u hallforio?

JJ: Fel dietegydd rwyf am weld cyllidebau cleifion yn cael eu gwarchod. Mae gan bob bwrdd iechyd ffordd wahanol o gyfrifo cyllideb fesul claf. Angen bodloni gwahanol ofynion dietegol e.e. mae angen diet cytbwys ar feganiaid gan gynnwys

protein, nid dim ond ffrwythau a llysiau. Problem gyda thoriadau rhatach yw'r lefel braster.

Keith S: Mae LIC yn gweithio ar werthoedd tir cynaliadwy. Beth yw bwyd lleol o Gymru? Pa mor anodd yw dod o hyd i gynhwysion o Gymru yn unig? Haws i fusnesau llai na rhai mawr. Nid ydym yn tyfu ein holl llysiau yng Nghymru. Chwe blynedd yn ôl cyfarfu Keith â dros 160 o gwmnïau garddwriaeth yng Nghymru, bellach dim ond ¼ ohonynt sydd wedi goroesi. Roedd Garddwriaeth Cymru yn ganolbwynt bryd hynny, ond nid oedd y model busnes yn gynaliadwy. Mae clystyru cwmnïau o'r un anian gyda'i gilydd, e.e. bwyd môr, wedi gweithio'n dda i gryfhau sectorau eraill.

Katie Palmer (KP): Sut allwn sicrhau bod strategaethau cynhyrchu a threulio yn cyd-fynd â'i gilydd? Dim ond 5% o'n llysiau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Mewnforio dros 20% o'n llysiau o wledydd sydd â phroblemau newid hinsawdd mawr.

Plant ddim yn cael digon o llysiau. Dylai strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach gynnig cyfleoedd i gynyddu faint o llysiau maent yn eu bwyta.

Effaith enfawr ar iechyd y cyhoedd. Bwyta llysiau = hanfodol ar gyfer pethau fel atal clefyd y galon. Gweithio gyda LIC ar ymgyrch Nerth Llysiau i gynyddu faint o llysiau sy'n cael eu bwyta.

LG: Cyfle arall gyfer garddwriaeth ar ôl Brexit. Dim llawer o ffermydd o gwmpas ar hyn o bryd. Oherwydd ein bod yn mewnfario cymaint o ffrwythau a llysiau, nid ydym mor ymwybodol o newid hinsawdd ag y gallem fod.

Shea Buckland-Jones: Pe byddem yn cymhwyso'r nodau llesiant i'n system fwyd, sut byddai'n edrych? Cynllun i brofi damcaniaeth dros y misoedd nesaf i weld beth sy'n gweithio. A oes angen strategaeth system fwyd genedlaethol arnom? Caiff gwaith a gomisiynwyd gan Sefydliad Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd ei gyhoeddi'r wythnos nesaf. Datblygu model cymunedol a chadwyni cyflenwi lleol. Agenda Pwysau Iach: Cymru Iach yn berthnasol hefyd

Mae mwy a mwy o bobl yn awyddus i ddatblygu rhwydweithiau ynni lleol. Sut y gellid cymhwyso hynny at fwyd? Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn delio ag agweddau masnachol. Sut allech chi gymhwyso'r un trylwyredd i strategaeth iechyd da ehangach? Rhowch fodelau rôl da i ffermwyr fel Slade Farm i'w hysbrydoli i ddilyn esiampl. Sut allwn ni ychwanegu gwerth at ymdrechion ffermwyr?

LG: Mae pobl eisiau prynu mwy o fwyd o Gymru heddiw na 10 mlynedd yn ôl. Mae sector bwyd Cymru wedi tyfu. Bellach mae gan LIC 7 neu 8 clwstwr bwyd sy'n dod â chwmnïau ynghyd i drafod meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. E.e. mae mêl yn nwydd drud ond mae'r sector yn parhau i dyfu. 1,400 o wenywyr. 680 o gwmnïau'n cymryd rhan

Lucie Taylor (LT): Mae ffermydd cymunedol yn wynebu heriau penodol e.e. gorfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio llawn i adeiladu strwythur os ydynt o dan bum hectar.

Rhys Evans: Mae ffermio wedi dod yn fwy arbenigol dros y degawd diwethaf. Cyfle i ddod â ffermio cymysg yn ôl. Roedd arfer bod mwy o dyfu llysiau a llysiau a ffermio

âr yn fy nyffryn yng ngogledd Cymru. Arallgyfeirio risg. Angen polisi amaeth i annog arallgyfeirio. Bwyta llai o gig ond o well ansawdd, o ffynonellau cynaliadwy. Gallai bioamrywiaeth fod wrth wraidd polisi amaeth.

LG: Cytuno â phwysigrwydd ffermio cymysg. Mae angen cynhyrchu cig yn gynaliadwy, ac o ansawdd gwell. A yw cig eidion wedi'i besgi ar borfa? Bydd ymgynghoriadau pellach ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Mae angen i ni sicrhau bod ein polisïau wedi'u halinio.

Llyr Huws Gruffydd: Sut mae hyn yn cael ei dreiddio i lawr i'n colegau amaethyddol? Gwneud yn siŵr ein bod ni'n dysgu pobl sut i greu bwyd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Awgrym dod â cholegau amaethyddol at ei gilydd.

LG: Mae Kirsty Williams yn cydnabod pwysigrwydd y sgiliau newydd hyn. Sgwrs barhaus.

JR: Diolchodd i LG a dymunodd pob lwc iddi gyda thrafodaethau'r UE dros y 10 mis nesaf.

(Gadawodd Lesley Griffiths y cyfarfod)

Cafwyd trafodaeth fer ar bynciau'r dyfodol.

HID: Grŵp bord gron ynghylch system fwyd gynaliadwy yng Nghymru ar 11 Mawrth i drafod ymchwil a gomisiynwyd gan WWF o Sefydliad Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd. A fyddai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fwyd yn pigo hyn i fyny?

JR: Mae gan offeryn i fesur lefelau maetholion mewn bwyd y potensial i newid sut mae pobl yn barnu bwyd yn seiliedig ar bris yn unig. Gallai siopwyr ei ddefnyddio wrth siopa.

KP: Gwaith cydweithfeydd. Model lleoedd bwyd cynaliadwy: 60 yn y DU ond dim ond 1 yng Nghymru.

JR: Cyfle i roi llwyfan i grwpiau lobïo ar gyfer maent am weld ym manifestos pleidiau ar gyfer etholiad 2021.

Cytunwyd y byddai'r Aelodau a oedd yn bresennol yn cael trafodaeth e-bost ar sut i symud ymlaen â hyn.